



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Y gofynion ar gyfer darparu
cysiau hyfforddiant cychwynnol
athrawon yng Nghymru – materion
llythrennedd a rhifedd

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mai 2012

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 3 Awst 2012

Y gofynion ar gyfer darparu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru – materion llythrennedd a rhifedd

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion i gyflwyno Meini Prawf newydd ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd. Byddai hyn yn cyflwyno gofynion diwygiedig ar gyfer darparu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru. Byddent yn cynnwys gofynion statudol ar gyfer asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd personol hyfforddeion a sicrhau bod addysgu llythrennedd a rhifedd yn rhan ganolog o gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon. Mae'r cynigion yn cynnwys nifer o newidiadau ategol a diwygiadau diweddar.

Mae gofynion tebyg hefyd yn cael eu cynnig ar gyfer Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2012 pan fydd yn cael ei weithredu (ymgynghorwyd ar gyflwyno'r cynllun hwn rhwng 11 Tachwedd 2011 a 21 Ionawr 2012; ar 19 Mawrth 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei fwriad i fwrw ymlaen â rhaglen newydd ar gyfer hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth a fyddai'n golygu bod yn rhaid gweithredu Cynllun 2012.

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ffurflenni ymateb i'r cyfeiriad isod erbyn **3 Awst 2012** fan bellaf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgynghoriadau

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:
Helen David
Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol
Llywodraeth Cymru
Rhadbost NAT 8910
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: ITTRequirementsconsultation@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 6085

Diogelu data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

1.	Beth yw'r prif faterion?	1
2.	Beth yw'r sefyllfa bresennol?	3
3.	Pam rydym yn cynnig newid?	4
4.	Pa newidiadau penodol rydym yn eu cynnig?	9

1. Beth yw'r prif faterion?

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion i gyflwyno meini prawf achredu statudol newydd y bydd yn rhaid i bob sefydliad achrededig sy'n darparu cyrsiau ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon ("HCA") sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig ("SAC") eu bodloni.

1.2 Nodir y rhain ar hyn o bryd yn y Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006 (2006 Rhif 50), fel y'i diwygiwyd gan y Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Diwygio) 2006 (2006 Rhif 75) ("meini prawf achredu 2006").

1.3 Mae meini prawf achredu 2006 ar gyfer darparwyr HCA yn cynnwys Gofynion statudol ar gyfer Darparu Cyrsiau HCA ("y Gofynion"). Nodir y rhain yn Atodiad A meini prawf achredu 2006. Rydym yn cynnig cyflwyno meini prawf achredu newydd yn lle rhai 2006 a fyddai'n gwneud y newidiadau canlynol o'r Gofynion i gynnwys materion llythrennedd a rhifedd:-

- (a) yn yr adran gofynion mynediad, newid y safon mynediad gofynnol o fod yn gyfwerth â gradd C TGAU mewn Saesneg a mathemateg, yn ogystal â mewn pwnc gwyddoniaeth ar gyfer ymgeiswyr cynradd, i un sy'n gyfwerth â gradd B TGAU;
- (b) cyflwyno darpariaeth newydd yn yr adran gofynion mynediad a fyddai'n ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn cael eu hasesu i fod â sgiliau llythrennedd a rhifedd personol gweithredol sy'n gymwys mewn cyd-destun addysgu proffesiynol, i safon sydd o leiaf yn gyfwerth â'r lefel mynediad gofynnol;
- (c) cyflwyno darpariaeth newydd yn yr adran gofynion hyfforddiant ac asesu sy'n ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA sicrhau bod sgiliau llythrennedd a rhifedd personol athrawon dan hyfforddiant yn cael eu hasesu'n rheolaidd a chywir drwy gydol eu hyfforddiant; a nodi pan fo hyfforddeion yn cael eu hasesu i fod wedi cyflawni'r holl Safonau SAC, bod yn rhaid i ddarparwyr allu bodloni eu hunain fod y safonau yn (b) uchod yn cael eu cyflawni o hyd; a
- (d) chyflwyno darpariaeth newydd yn yr adran gofynion hyfforddiant ac asesu a fydd yn ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hyfforddi i addysgu llythrennedd a rhifedd sy'n briodol i'r cyfnod a'r pwnc a astudir, a bod hyn yn rhan ganolog o gyrsiau hyfforddiant.

1.4 Rydym hefyd yn cynnig rhai newidiadau ategol sydd â'r nod o gysoni rhai elfennau o HCA er mwyn helpu i sicrhau y gall y newidiadau sy'n cynnwys materion llythrennedd a rhifedd weithio ar sail gyffredin. Byddai'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr HCA sicrhau bod:-

- (a) rhaglenni hyfforddiant wedi'u llunio i ddarparu o leiaf 60 diwrnod o weithgarwch hyfforddiant y flwyddyn i bob hyfforddai – byddai hynny am gyfnod gofynnol o hyfforddiant dynodedig mewn ysgol, dan arweiniad prifysgol, ac ar wahân i'r amserlen addysgu; a

- (b) chynyddu'r cyfnod y mae athrawon dan hyfforddiant yn ei dreulio ar raglenni HCA cynradd ôl-raddedig yn cael eu hyfforddi mewn ysgolion o 18 wythnos i o leiaf 24 wythnos.

1.5 Fel rhan o'r dull o gysoni elfennau o HCA i helpu i sicrhau bod y newidiadau sy'n cynnwys materion llythrennedd a rhifedd yn gallu gweithio ar sail gyffredin, rydym hefyd yn cynnig gwneud ambell i newid i Gynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2012 ("Cynllun 2012") pan fydd yn cael ei roi ar waith. Byddai'r rhain yn diwygio'r gofynion ar gyfer darpariaeth HCA ar gyfer rhaglenni hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth a weithredir o dan Gynllun 2012 ac a nodir yn ei Atodiad, fel a ganlyn:-

- (a) yn yr adran gofynion mynediad EBR1, newid y safon mynediad gofynnol o fod yn gyfwerth â gradd C TGAU mewn Saesneg a mathemateg i un sy'n gyfwerth â gradd B TGAU (ac o gyfwerth â gradd C TGAU mewn pwnc gwyddoniaeth i un sy'n gyfwerth â gradd B TGAU mewn pwnc gwyddoniaeth ar gyfer ymgeiswyr cynradd);
- (b) cyflwyno darpariaeth newydd yn yr adran gofynion mynediad EBR1 a fyddai'n ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA sicrhau bod yr holl ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth yn cael eu hasesu i fod â sgiliau llythrennedd a rhifedd personol gweithredol sy'n gymwys mewn cyd-destun addysgu proffesiynol, i safon sydd o leiaf yn gyfwerth â'r lefel mynediad gofynnol;
- (c) cyflwyno darpariaeth newydd yn yr adran gofynion hyfforddiant ac asesu EBR2 sy'n ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA sicrhau bod sgiliau llythrennedd a rhifedd personol athrawon dan hyfforddiant yn cael eu hasesu'n rheolaidd a chywir drwy gydol eu hyfforddiant; a nodi pan fo hyfforddeion yn cael eu hasesu i fod wedi cyflawni'r holl Safonau SAC, bod yn rhaid i ddarparwyr allu bodloni eu hunain fod y safonau yn (b) uchod yn cael eu cyflawni o hyd; a
- (d) chyflwyno darpariaeth newydd yn yr adran gofynion hyfforddiant ac asesu EBR2 a fydd yn ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA sicrhau bod y rhai sydd yn dilyn rhaglenni hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yn cael eu hyfforddi i addysgu llythrennedd a rhifedd sy'n briodol i'r cam a'r pwnc a astudir, a bod hyn yn rhan ganolog o gyrсияu hyfforddiant.

1.6 Ymgynghorwyd ar Gynllun 2012 rhwng 11 Tachwedd 2011 a 31 Ionawr 2012 ac, ar 19 Mawrth 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei fwriad i fwrw ymlaen â rhaglen newydd hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth a fyddai'n golygu bod yn rhaid gweithredu Cynllun 2012.

1.7 Hefyd, rydym am wneud rhai newidiadau amrywiol i feini prawf achredu 2006. Byddai hyn yn cynnwys rhoi'r gorau i nodi bod darparwyr HCA yn sicrhau bod ymgeiswyr yn bodloni'r gofynion o ran iechyd a gallu corfforol i ddysgu. Ar yr un sail, byddai'r gofyniad tebyg yn yr atodiad i Gynllun 2012 yn cael ei ddileu.

1.8 Ar wahân i'r newidiadau o'r Gofynion a restrir ym mharagraffau 1.3, 1.4 ac 1.7, ni chynigir unrhyw newidiadau sylweddol i'r meini prawf ar gyfer achredu darparwyr HCA.

2. Beth yw'r sefyllfa bresennol?

2.1 Mae'n rhaid i bob darparwr sy'n darparu cyrsiau HCA sy'n arwain at SAC gael ei achredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Er mwyn i CCAUC ei achredu, mae'n rhaid i sefydliad sy'n darparu HCA fodloni'r meini prawf a benwyd gan Lywodraeth Cymru.

2.2 Nodir y meini prawf cyfredol ym meini prawf achredu 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Gofynion, sy'n nodi'r hyn sydd angen i bob darparwr HCA ei wneud wrth gynnal cyrsiau HCA mewn perthynas â gofynion mynediad, hyfforddiant ac asesu, a rheoli'r bartneriaeth HCA gydag ysgolion, a sicrhau ansawdd. Mae meini prawf achredu 2006 yn ddogfen statudol a wnaed o dan ddarpariaethau rheoliad 7 Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004.

2.3 Dyfernir yr achrediad i'r sefydliad a bydd yn cynnwys pob cwrs HCA a gynhelir gan y sefydliad hwnnw. Ar ôl rhoi'r achrediad, nid oes terfyn amser arno, ond gall CCAUC ei dynnu'n ôl os oes tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â'r meini prawf penodedig. Yn hyn o beth, mae'n rhaid i CCAUC roi sylw priodol i dystiolaeth gan Estyn os yw'r Arolygiaeth yn barnu nad yw'r ddarpariaeth HCA yn bodloni'r gofynion achredu.

2.4 Mae copi o'r ddwy ddogfen sy'n cynnwys meini prawf achredu 2006 ar gael yn:

- www.cymru.gov.uk/legislation/subordinate/nonsi/educationwales/2006/CriteriaforITT2006e?skip=1&lang=cy
- www.cymru.gov.uk/legislation/subordinate/nonsi/educationwales/2006/CriteriaforITTAccred2006e?skip=1&lang=cy

2.5 Nid yw darpariaeth HCA ar sail cyflogaeth (ar raglenni fel y Rhaglen Athrawon Graddedig) yn gorfod cydymffurfio â meini prawf achredu 2006. Mae hynny'n golygu nad yw'r Gofynion ychwaith yn berthnasol i raglenni HCA ar sail cyflogaeth. Ar hyn o bryd, mae HCA ar sail cyflogaeth yn cael ei lywodraethu gan Gynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2011 (2011 Rhif 32) ("Cynllun 2011"), ac mae'n cynnwys gofynion ar gyfer darpariaeth HCA ar gyfer rhaglenni hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth yn ei atodiad. Mae copi o Gynllun 2011 ar gael yn www.cymru.gov.uk/legislation/subordinate/nonsi/educationwales/2011/5360417/?skip=1&lang=cy

2.6 Ymgynghorwyd ar Gynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth newydd – Cynllun 2012 – rhwng 11 Tachwedd 2011 a 31 Ionawr 2012. Yn sgil yr ymgynghoriad, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar 19 Mawrth 2012 y byddai'n bwrw ymlaen â rhaglen newydd hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth a fyddai'n golygu bod yn rhaid gweithredu Cynllun 2012 yn lle Cynllun 2011. Mae copi o'r deunydd ymgynghori, gan gynnwys y Cynllun drafft 2012, ar gael yn www.cymru.gov.uk/consultations/education/teachertraining/?skip=1&lang=cy

3. Pam rydym yn cynnig newid?

Materion llythrennedd a rhifedd

3.1 Mewn araith ar 2 Chwefror 2011, nododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau gynllun 20 pwynt ar gyfer gwella safonau ysgolion. Roedd yn pwysleisio'r angen allweddol i ganolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd. Un o'r camau gweithredu oedd cyflwyno gofynion statudol ar gyfer asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd personol hyfforddeion HCA, ac i hyfforddi pob athro/athrawes cymwysedig mewn llythrennedd a rhifedd.

(i) Asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd hyfforddeion HCA

3.2 Mae darpariaethau statudol cyfredol yn y Gofynion sy'n ymwneud ag asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd personol hyfforddeion wrth gael eu derbyn. Mae'n rhaid i bob darparwr HCA sicrhau bod pob ymgeisydd wedi cyrraedd safon gyfwerth â gradd C yn yr arholiad TGAU Saesneg a mathemateg. Mae'n rhaid iddynt hefyd fodloni eu hunain y gall pob ymgeisydd ddarllen yn effeithiol, a'u bod yn gallu cyfathrebu'n glir ac yn gywir mewn Saesneg llafar ac ysgrifenedig.

3.3 Mae darparwyr HCA eisoes yn asesu sgiliau llythrennedd ymgeiswyr, a'u sgiliau rhifedd mewn ambell i achos, a defnyddir yr wybodaeth hon cyn cynnig lle i ymgeisydd. Mae darparwyr hefyd yn cynnal asesiadau llythrennedd a rhifedd o hyfforddeion HCA gydol eu cyrsiau.

3.4 Yn y mwyafrif o achosion, ni chynhelir asesiadau gadael penodol gyda hyfforddeion HCA. Mae darparwyr HCA yn asesu hyfforddeion yn barhaus gydol eu cyrsiau gan fod hynny'n well ffordd o sicrhau bod safonau priodol yn cael eu cyrraedd a'u cynnal hyd at ddiwedd y cwrs.

3.5 Ar hyn o bryd, mae llawer o'r asesiadau hyn yn amrywio o un sefydliad i'r llall. Ledled Cymru, mae'r darparwyr HCA yn cydweithio i ddatblygu dull cyffredin o asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd hyfforddeion HCA.

3.6 Er bod darpariaethau yn y Gofynion sy'n ymwneud ag asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd personol hyfforddeion wrth eu derbyn, nid oes gofyniad penodol ar gyfer y gwaith hwn. Rydym am adeiladu ar y gwaith asesu sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, a chefnogi gwaith gan ddarparwyr i symud tuag at safonau asesu cyffredin, drwy wneud newidiadau i'r Gofynion. Byddai'r rhain yn cyflwyno gofyniad penodol i asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd personol hyfforddeion wrth iddynt gael eu derbyn; i sgiliau llythrennedd a rhifedd athrawon dan hyfforddiant gael eu hasesu'n rheolaidd a chywir drwy gydol eu hyfforddiant; ac ar yr adeg y mae hyfforddeion yn cael eu hasesu i fod wedi cyflawni'r holl Safonau SAC, bod yn rhaid i ddarparwyr allu bodloni eu hunain bod y safonau ar gyfer sgiliau llythrennedd a rhifedd yn parhau i gael eu cyrraedd.

3.7 Am resymau tebyg, rydym yn cynnig newid cyfatebol i'r gofyniad ar gyfer darpariaeth HCA ar gyfer rhaglenni hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yn yr atodiad i Gynllun 2012.

(ii) Safonau ar gyfer sgiliau llythrennedd a rhifedd

3.8 Mae angen i'r gofynion a drafodir ym mharagraff 3.6 gyfeirio at gyfres neu lefel benodol o safonau academiaidd neu gysylltiedig y disgwylir i'r rhain gael eu gosod yn eu herbyn.

3.9 Ar hyn o bryd, y gofyniad cymwysterau gofynnol statudol ar gyfer cael mynediad ar gyrsiau HCA yw cyfwerth â gradd C TGAU mewn Saesneg a mathemateg (ac mewn gwyddoniaeth ar gyfer cyrsiau cynradd). Fodd bynnag, mae gan ddarparwyr y rhyddid i bennu safonau unigol uwch na'r safonau gofynnol, ac ar hyn o bryd mae gofyniad cyffredinol bron iawn ymysg darparwyr HCA yng Nghymru am gymhwyster Saesneg cyfwerth â gradd B TGAU i gael mynediad i gwrs. Mae'r sefyllfa'n fwy amrywiol o ran mathemateg, ond roedd sawl achos o fod angen gradd B.

3.10 O ystyried y pwysigrwydd sydd angen ei roi ar godi safonau llythrennedd a rhifedd, rydym yn cynnig cynyddu'r gofynion cymwysterau mynediad gofynnol o gymhwyster cyfwerth â gradd C TGAU mewn Saesneg a mathemateg i gymhwyster cyfwerth â gradd B TGAU. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i bwnc gwyddoniaeth ar gyfer cyrsiau cynradd er mwyn sicrhau cysondeb. Byddai'r gofynion a drafodwyd ym mharagraff 3.6 yn ei gwneud yn ofynnol i hyfforddeion feddu ar sgiliau llythrennedd a rhifedd personol, o safon academiaidd sy'n cyfateb i gymhwyster cyfwerth â gradd B TGAU, sef cymhwyster gofynnol y bwriedir ei sefydlu. Byddai'r gofyniad hefyd yn nodi bod yn rhaid i'r rhain fod yn sgiliau llythrennedd a rhifedd personol gweithredol a fyddai'n gymwys mewn cyd-destun addysgu proffesiynol. Byddem yn croesawu sylwadau ar sut i ddisgrifio'n ymarferol y sgiliau gweithredol hyn.

3.11 Ar hyn o bryd, nid yw'r Gofynion yn cynnwys gofyniad sylfaenol statudol ar gyfer mynediad i gyrsiau HCA am gymhwyster mewn Cymraeg ac nid ydym yn cynnig ychwanegu gofyniad i fersiwn diwygiedig ar hyn o bryd. Roedd ymgynghoriad ar y Gofynion cyn eu cyflwyno yn 2006 yn cynnwys cynnig y dylent ymgorffori rhai gofynion mynediad Cymraeg penodol ar gyfer cyrsiau a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod ymatebwyr yn croesawu'r egwyddor o gael safonau ar gyfer gofynion mynediad Cymraeg penodol a oedd yn cyfateb i'r rhai ar gyfer cyrsiau HCA yn gyffredinol, credai llawer y byddai anawsterau ymarferol difrifol wrth fabwysiadu dull o'r fath. Teimlwyd y byddai cyfeirio at safon TGAU Cymraeg yn gwahaniaethu yn erbyn y rhai hynny a oedd wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol ac oedd wedi dysgu wedi hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd pryderon am beth yn union fyddai'n cael ei ystyried yn 'gwrs drwy gyfrwng y Gymraeg', gyda rhai cyrsiau heb gynnwys Cymraeg digonol i gyfiawnhau'r gofyn am sgiliau iaith lefel uchel er mwyn derbyn ymgeiswyr.

3.12 Roedd pryderon hefyd y byddai gofynion mynediad Cymraeg penodol yn creu rhwystr cyn mynediad i HCA drwy gyfrwng y Gymraeg, o gymharu â dull o gynnig cymorth gyda'r Gymraeg yn ystod yr hyfforddiant. Mae ffyrdd amrywiol o gynorthwyo hyfforddeion ar gyrsiau HCA sydd angen cymorth gyda sgiliau Cymraeg, a gall hyn adlewyrchu'r lefelau sgiliau amrywiol sydd eu hangen, er enghraifft, ar gyfer addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; gallu addysgu Cymraeg Ail Iaith mewn ysgolion cynradd; neu ar gyfer addysgu Meysydd Dysgu Cyfnod Sylfaen Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, a Datblygu'r Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar

gyfer Cynllun Gwella'r Gymraeg, sydd â'r nod o gynnig hyfforddiant a chymorth ychwanegol i helpu athrawon dan hyfforddiant sydd wedi ymrestru ar gyrsiau HCA ôl-raddedig uwchradd cymwys i fod yn gymwys i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, Mae'r Cynllun Gwella'r Gymraeg wedi'i fwriadu ar gyfer hyfforddeion sydd am addysgu pwnc uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg, ond sydd angen cymorth ychwanegol i wella eu sgiliau ieithyddol a'u hyder i wneud hynny.

3.13 Mae darparwyr HCA hefyd yn darparu cymorth ar gyfer hyfforddeion i ddysgu ac addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cynradd drwy Gynllun Colegau Cymru. Mae'r lefelau cymhwysedd a gyflawnir gan hyfforddeion yn cael eu safoni ledled y Canolfannau HCA i sicrhau cysondeb. Bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol newydd yn gweithio gyda'r Canolfannau HCA i baratoi cynllun datblygu ar gyfer HCA drwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn cael ei gynnwys yng nghynllun academaidd cyffredinol y Coleg. Mae'r Coleg hefyd yn sefydlu panel o fewn ei strwythurau a fydd yn cynnwys staff o'r Canolfannau HCA i ystyried materion sy'n berthnasol i HCA drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Coleg yn gweithio gyda'r Canolfannau HCA a CCAUC i sefydlu ffyrdd o fesur a chydabod cymhwysedd Cymraeg athrawon dan hyfforddiant ac mae hefyd, mewn trafodaethau â'r Canolfannau HCA, yn ystyried ysgwyddo'r cyfrifoldeb am weinyddu Cynllun Coleg Cymru.

(iii) Hyfforddiant mewn addysgu llythrennedd a rhifedd

3.14 Mae'r darpariaethau statudol cyfredol yn y Gofynion yn cwmpasu darparu hyfforddiant sy'n ymwneud ag addysgu llythrennedd a rhifedd drwy ofynion bod yn rhaid i ddarpariaeth cwrs HCA alluogi hyfforddeion i ddangos eu bod wedi cyrraedd Safonau SAC.

3.15 Mae'r Safonau SAC – sydd i'w gweld ar hyn o bryd yn Safonau Statws Athro Cymwysedig Cymru 2009 (2009 Rhif 25) – yn cynnwys gofynion niferus sy'n ymwneud ag addysgu llythrennedd a rhifedd. Er mwyn ennill SAC, mae'n rhaid i hyfforddeion ddangos bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r pwnc(pynciau) y maent wedi'u hyfforddi i'w haddysgu; ac y gallant addysgu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r dealltwriaeth ofynnol neu ddisgwyliedig sy'n berthnasol i'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr yn yr ystod oedran y maent wedi'u hyfforddi ar ei chyfer.

3.16 Ym mhob cyfnod, mae'n rhaid i hyfforddeion ddangos eu bod yn gwybod a deall y canllawiau cenedlaethol diweddaraf ar ddatblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhifau, er enghraifft y rhai a nodir yn y *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Mewn perthynas ag addysgu mewn cyfnodau penodol:-

- mae'n rhaid i'r rhai sy'n gymwys i addysgu plant Cyfnod Sylfaen ddangos eu bod yn addysgu'r saith Maes Dysgu sy'n rhan o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn gymwys ac yn annibynnol (gan gynnwys Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; a Datblygiad Mathemategol);
- mae'n rhaid i'r rhai sy'n gymwys i addysgu dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2 ddangos eu bod yn gallu addysgu'r pynciau craidd (gan gynnwys Saesneg a mathemateg) yn gymwys ac yn annibynnol; ac
- mae'n rhaid i'r rhai sy'n gymwys i addysgu dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 neu Gyfnod Allweddol 4 ddangos eu bod yn gallu addysgu eu pwnc(iau)

arbenigol yn gymwys ac yn annibynnol, gan ddefnyddio rhaglenni astudio'r cwricwlwm cenedlaethol.

3.17 Mae'r Gofynion hefyd yn nodi bod yn rhaid i bob darparwyr HCA sicrhau bod cyflawniadau athrawon dan hyfforddiant yn erbyn Safonau SAC yn cael eu hasesu'n rheolaidd a chywir. Hefyd rhaid i'r holl ddarparwyr HCA fodloni eu hunain bod yr holl athrawon dan hyfforddiant wedi'u hasesu yn erbyn y Safonau SAC ac wedi'u cyflawni cyn cadarnhau i'r corff priodol y gellir eu hysbysu eu bod yn athrawon cymwysedig.

3.18 Er bod rhwymedigaethau yn ymwneud â darparu hyfforddiant sy'n ymwneud ag addysgu llythrennedd a rhifedd drwy'r gofyniad gorfodol i hyfforddi myfyrwyr i gyflawni'r Safonau SAC, nid oes gofyniad uniongyrchol i wneud y gwaith hwn yn y Gofynion. Hoffem wneud newidiadau i'r Gofynion i gyflwyno gofyniad penodol bod myfyrwyr yn cael eu hyfforddi i addysgu llythrennedd a rhifedd. Byddai sefydlu Gofyniad statudol penodol yn amlygu'r pwysigrwydd a roddir i'r maes hyfforddiant hwn ac yn rhoi ffocws i waith darparwyr HCA yn y maes hwn. Byddai hefyd yn ei gyflwyno fel maes y dylai Estyn fynd i'r afael yn benodol ag ef yn ei arolygiad o ddarpariaeth HCA, a byddai'n darparu cyfeirbwynt penodol wrth i CCAUC ystyried achredu darparwyr HCA.

3.19 Ar yr un sail, cynigir yr un newid i'r gofynion ar gyfer darpariaeth HCA ar gyfer rhaglenni hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth a nodir yn yr atodiad i Gynllun 2012.

(iv) Newidiadau sy'n ategu diwygiadau sy'n ymwneud â llythrennedd a rhifedd

3.20 Rydym hefyd yn cynnig rhai newidiadau ategol sydd â'r nod o gysoni rhai elfennau o HCA er mwyn helpu i sicrhau bod y newidiadau sy'n ymwneud â materion llythrennedd a rhifedd yn gweithio ar sail gyffredin.

3.21 Rydym yn cynnig cyflwyno darpariaeth newydd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr HCA sicrhau bod y rhaglenni hyfforddiant wedi'u llunio i ddarparu o leiaf 60 diwrnod o weithgarwch hyfforddiant ym mhob blwyddyn academaidd i hyfforddeion (ar sail pro rata ar gyfer cyrsiau rhan-amser neu fodiwlwr). Byddai hynny am gyfnod gofynnol o hyfforddiant dynodedig mewn ysgol, dan arweiniad prifysgol, ac ar wahân i'r amserlen addysgu. Byddai'n cyd-fynd â'r cyfnodau gofynnol cyfredol sy'n ofynnol i hyfforddeion eu treulio yn cael eu hyfforddi mewn ysgolion, ac yn darparu dull cyffredin ar gyfer yr holl hyfforddeion.

3.22 Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i athrawon dan hyfforddiant ar raglenni HCA cynradd ôl-raddedig dreulio o leiaf 18 wythnos yn cael eu hyfforddi mewn ysgolion. Rydym yn cynnig cynyddu'r cyfnod hwn i 24 wythnos o leiaf. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod cyrsiau ôl-raddedig cynradd yn darparu'r un lefel o hyfforddiant yn yr ysgol â chysiau ôl-raddedig uwchradd.

Newidiadau eraill

3.23 Rydym hefyd yn cynnig rhai newidiadau a diweddariadau amrywiol yn gyffredinol o gymharu â meini prawf achredu 2006. Mân newidiadau yw'r rhain ar y cyfan er mwyn diweddarau ac egluro'r ddeddfwriaeth.

3.24 Mae un newid er mwyn diweddarau yn ymwneud â darpariaeth yn y Gofynion bod yn rhaid i ddarparwyr HCA sicrhau bod pob ymgeisydd yn bodloni'r gofynion o ran iechyd a gallu corfforol i ddysgu, a nodir ar hyn o bryd yn Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd) (Cymru) 2004. Mae'r rhain yn cynnwys nodi gweithgareddau addysgu amrywiol y gall unigolyn eu gwneud ar yr amod bod ganddo/ganddi'r iechyd neu'r gallu corfforol i wneud hynny. Byddai'r ddarpariaeth hon yn gymwys i hyfforddeion ar gyrsiau HCA sy'n ymgymryd â phrofiad addysgu ymarferol mewn ysgolion.

3.25 Mae datblygiadau deddfwriaethol dilynol ers hynny yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, a dywed Adran 60 y Ddeddf honno na ddylai cyflogwyr, ac eithrio mewn sefyllfaoedd penodedig, ofyn cwestiynau sy'n gysylltiedig ag iechyd i ymgeiswyr cyn cynnig swyddi. Gall y sefyllfaoedd penodedig hyn gynnwys canfod a fyddai ymgeisydd am swydd yn gallu cyflawni swyddogaeth sy'n gynhenid i'r swydd, gydag addasiadau rhesymol ar waith yn ôl y gofyn.

3.26 Mewn sefyllfa lle na ddylai cyflogwyr ofyn cwestiynau iechyd hollgynhwysol cyffredinol, ystyrir nad yw'n briodol i'r Gofynion gynnwys darpariaeth bod yn rhaid i ddarparwyr HCA sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn bodloni gofynion o ran iechyd a gallu corfforol i ddysgu. Felly, rydym yn cynnig cael gwared ar y gofyniad hwn. Ni chynigir gofyniad diwygiedig yn ei le; mae'n rhaid i ddarparwyr HCA fodloni rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â hyfforddeion ar gyrsiau HCA o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb ac anableddau amrywiol, ac ni chredir ei bod yn ymarferol cynnwys darpariaeth yn y Gofynion sy'n cwmpasu'r rhain.

3.27 Cynigir newidiadau tebyg i'r gofynion ar gyfer darpariaeth HCA ar gyfer rhaglenni hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth a nodir yn yr atodiad i Gynllun 2012.

4. Pa newidiadau penodol rydym yn eu cynnig?

4.1 Rydym yn cynnig diddymu meini prawf achredu 2006 a'u disodli gyda dogfen statudol ddiwygiedig sydd wedi'i diweddarau. Byddai'r prif newidiadau yn y Gofynion, a nodir ar hyn o bryd yn Atodiad A meini prawf achredu 2006. O gymharu â'r fersiwn gyfredol, byddai'r newidiadau canlynol yn cael eu gwneud:-

Gofynion mynediad

- (a) ar hyn o bryd mae gofyniad R1.2 yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr HCA sicrhau bod pob ymgeisydd wedi cyrraedd safon gyfwerth â gradd C mewn arholiad TGAU Saesneg a mathemateg. Rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad diwygiedig bod yn rhaid i bob darparwr HCA sicrhau bod pob ymgeisydd wedi cyrraedd safon gyfwerth â gradd B mewn arholiad TGAU Saesneg a mathemateg;
- (b) yn yr un modd, mae'r gofyniad R1.3 cyfredol (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr HCA sicrhau bod pob ymgeisydd sy'n derbyn hyfforddiant cynradd neu Gyfnodau Allweddol 2/3 wedi cyrraedd safon gyfwerth â gradd C mewn arholiad TGAU mewn pwnc gwyddoniaeth. Rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad diwygiedig bod yn rhaid i bob darparwr HCA sicrhau bod pob ymgeisydd sy'n derbyn hyfforddiant cynradd neu Gyfnodau Allweddol 2/3 wedi cyrraedd safon gyfwerth â gradd B mewn arholiad TGAU mewn pwnc gwyddoniaeth;
- (c) byddai darpariaeth newydd yn cael ei chyflwyno a fyddai'n ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael ei asesu i fod â sgiliau llythrennedd a rhifedd personol gweithredol sy'n gymwys mewn cyd-destun addysgu proffesiynol, i safon sydd o leiaf yn gyfwerth â'r gofyniad mynediad cymwysterau cyfwerth â TGAU gofynnol;
- (d) ni fyddai'r gofyniad R1.4 cyfredol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr HCA sicrhau bod pob ymgeisydd wedi bodloni gofynion Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran iechyd a gallu corfforol i addysgu, yn cael ei gynnwys yn y gofynion yn y ddogfen statudol ddiwygiedig sydd wedi'i diweddarau;

Gofynion hyfforddi ac asesu

- (e) byddai darpariaeth newydd yn cael ei chyflwyno a fyddai'n ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA sicrhau bod sgiliau llythrennedd a rhifedd personol athrawon dan hyfforddiant yn cael eu hasesu'n rheolaidd a chywir drwy gydol eu hyfforddiant; a nodi pan fo hyfforddeion yn cael eu hasesu i fod wedi cyflawni'r holl Safonau SAC, bod yn rhaid i ddarparwyr allu bodloni eu hunain fod y safonau yn (c) uchod yn cael eu cyflawni o hyd;
- (f) byddai darpariaeth newydd yn cael ei chyflwyno a fyddai'n ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hyfforddi i addysgu llythrennedd a rhifedd sy'n briodol i'r cyfnod a'r pwnc a astudir, a bod hyn yn rhan ganolog o gyrsgiau hyfforddiant;

- (g) byddai darpariaeth newydd yn cael ei chyflwyno a fyddai'n ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA lunio rhaglenni hyfforddiant i ddarparu o leiaf 60 diwrnod o weithgarwch hyfforddiant ym mhob blwyddyn academaidd i hyfforddeion (ar sail pro rata ar gyfer cyrsiau rhan-amser neu fodiwlwr); ac
- (h) mae'r gofyniad R2.5 cyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr HCA sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant ar bob rhaglen ôl-raddedig gynradd yn treulio o leiaf 18 wythnos yn cael eu hyfforddi mewn ysgolion. Rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad diwygiedig bod athrawon dan hyfforddiant ar bob rhaglen ôl-raddedig gynradd yn treulio o leiaf 24 wythnos yn cael eu hyfforddi mewn ysgolion.

4.2 Rydym hefyd yn cynnig gwneud newidiadau tebyg i Gynllun 2012. Byddai'r rhain yn diwygio'r gofynion ar gyfer darpariaeth HCA ar gyfer rhaglenni hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth i gael eu gweithredu dan Gynllun 2012 fel y nodir yn ei atodiad, fel a ganlyn:-

Gofynion mynediad

- (a) byddai gofyniad EBR1.2 yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr HCA sicrhau bod pob ymgeisydd wedi cyrraedd safon gyfwerth â gradd C mewn arholiad TGAU Saesneg a mathemateg. Rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad diwygiedig bod yn rhaid i bob darparwr HCA ar sail cyflogaeth sicrhau bod pob ymgeisydd wedi cyrraedd safon gyfwerth â gradd B mewn arholiad TGAU Saesneg a mathemateg;
- (b) yn yr un modd, byddai gofyniad EBR1.3 yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr HCA sicrhau bod pob ymgeisydd sy'n derbyn hyfforddiant cynradd neu Gyfnodau Allweddol 2/3 wedi cyrraedd safon gyfwerth â gradd C mewn arholiad TGAU mewn pwnc gwyddoniaeth. Rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad diwygiedig bod yn rhaid i bob darparwr HCA ar sail cyflogaeth sicrhau bod pob ymgeisydd sy'n derbyn hyfforddiant cynradd neu Gyfnodau Allweddol 2/3 wedi cyrraedd safon gyfwerth â gradd B mewn arholiad TGAU mewn pwnc gwyddoniaeth;
- (c) byddai darpariaeth newydd yn cael ei chyflwyno a fyddai'n ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA ar sail cyflogaeth sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael ei asesu i fod â sgiliau llythrennedd a rhifedd personol gweithredol sy'n gymwys mewn cyd-destun addysgu proffesiynol, i safon sydd o leiaf yn gyfwerth â'r gofyniad mynediad cymwysterau cyfwerth â TGAU gofynnol;
- (d) ni fyddai'r gofyniad EBR1.4, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr HCA ar sail cyflogaeth sicrhau bod pob ymgeisydd wedi bodloni gofynion Gweinidogion Cymru o ran iechyd a gallu corfforol i addysgu, yn cael ei gynnwys yn y gofynion yn y ddogfen statudol ddiwygiedig sydd wedi'i diweddarau;

Gofynion hyfforddi ac asesu

- (e) byddai darpariaeth newydd yn cael ei chyflwyno a fyddai'n ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA ar sail cyflogaeth sicrhau bod sgiliau llythrennedd a rhifedd personol athrawon dan hyfforddiant yn cael eu

hasesu'n rheolaidd a chywir drwy gydol eu hyfforddiant; a nodi pan fo hyfforddeion yn cael eu hasesu i fod wedi cyflawni'r holl Safonau SAC, bod yn rhaid i ddarparwyr allu bodloni eu hunain fod y safonau yn (c) uchod yn cael eu cyflawni o hyd; a

- (f) byddai darpariaeth newydd yn cael ei chyflwyno a fyddai'n ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA sicrhau bod y rhai sydd yn dilyn rhaglenni hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yn cael eu hyfforddi i addysgu llythrennedd a rhifedd sy'n briodol i'r cyfnod a'r pwnc a astudir, a bod hyn yn rhan ganolog o gyrsiau hyfforddiant.

4.3 Mewn perthynas â mynediad i raglenni HCA ym mlwyddyn academiaidd 2013/14, rydym yn cynnig y byddai'r meini prawf diwygiedig ar gyfer achredu darparwyr HCA gyda'r gofynion diwygiedig ar gyfer darparu cyrsiau HCA yn dod i rym ym mis Medi 2013.

4.4 Byddai'r amserlen ar gyfer Cynllun 2012 fel yr ymgynghorwyd arni'n flaenorol, ac yn gymwys i leoedd ar Raglen Athrawon Graddedig neu Raglen Athrawon Cofrestredig lle dechreuodd y cyfnod hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2013; a'r lleoedd Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion lle dechreuodd y cyfnod hyfforddi ar neu ar ôl 1 Mehefin 2013.